

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2025

Yn bresennol: Cyng. Einir Thomas – Cadeirydd

Cynghorwyr: Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, William Victor Owen, Evan Wyn Robertson a Gareth Thomas.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen – Clerc/ SAC a Ken Taylor - Cynghorydd Sir. Ken Taylor.

1. Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd. Gordon Owen a Sharon Parry.

2. Datganiad o Ddiddordeb – datganiadau o fuddiannau personol:

Cyng. Gwilym O. Jones yn eitem 4.2 Neuadd y Pentref

Cyng. K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei swydd ar y Pwyllgor Cynllunio.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Derbyniwyd cofnodion 17 Mehefin 2025 fel rhai cywir (cyn. Cyng. G.O. Jones, eilio Cyng. W.V.Owen)

4. Materion sy'n codi o'r cofnodion.

4.1 Cae Chwarae: Cytunwyd i ofyn i Gyngor Tref Caergybi edrych ar wneud y gwaith cynnal a chadw ar yr offer chwarae ac i Craig Redmond am amcangyfrif ar gyfer torri'r coed onnen oedd wedi marw yna. Cytunwyd i ofyn i Shaun Wharton wneud gwaith atgyweirio cyflym i'r ddwy fainc bren y tu ôl i dai Stad Treifan. Nodwyd hefyd fod y fainc goffa gan Rhen Ysgol mewn cyflwr gwael – byddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried rhoi un eu hunain yn lle hon.

4.2 Neuadd y Pentref: Roedd R.G. Hire wedi gosod y beipen ddŵr newydd yng nghefn y neuadd. Cytunwyd i dderbyn y dyfynbrisiau o £522 ynghyd â THAW a £365 ynghyd â THAW ar gyfer gosod goleuadau allanol a chyflenwad trydan a socedi i'r ystafell storfa.

4.3 Goleuadau Stryd Lôn Minffordd – roedd y clerc wedi sefydlu bod yn ofynnol i'r datblygwr sy'n adeiladu'r ystâd newydd ar ffordd Minffordd osod goleuadau stryd i lawr i gyffordd Dafarn Cwch. Anogwyd y Cyngor i ystyried gwneud cais am fenthyciad gwaith cyhoeddus i osod y 5 lamp olau sydd eu hangen ar hyd y ffordd tuag at yr A55 yn hytrach na'u prynu un ar y tro dros nifer o flynyddoedd. Roedd y llog a fyddai'n daladwy ar fenthyciad cyhoeddus yn debygol o fod yn llawer rhatach na thalu tâl uwch am eu gosod ar wahân dros nifer o flynyddoedd. Cytunwyd i edrych i mewn i hyn.

4.4 Unrhyw fater arall sy'n deillio o'r cofnodion - dim.

5. Cynllunio

5.1 LBC/2025/14 Tolldu, Caergeiliog,
Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer adnewyddu cyffredinol ynghyd â chais ôl-weithredol ar gyfer codi to fflat yn – dim sylwadau, gaiff Cynllunwyr y Cyngor Sir ddelio â hwn.

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

5.2 VAR 2025/14 Llain Bont, Llanfair yn Neubwll – caniatâd.

6. Materion Ariannol

Cyflwynodd y SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1.6.2025 a 30.6. 2025 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

6.1 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

Cyflog (Mehefin.)	£352.87	Shaun Wharton	£200
Dŵr Cymru	£62.83	Clerc (Costau gweinyddol)	£162.87
Arolygu Cae Chwarae (M Owen)	£54.80	Playsafety Ltd	£120

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

7.1 Ymgynghoriad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig (ISA)

7.2 Cylchlythyr chwarterol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Ebrill - Mehefin

7.3 Nodyn Datblygu Ymarfer - Ysgrifennu Adroddiadau

7.4 Bwletin Un Llais Cymru

7.5 Fframwaith Cyfansoddiad a Llywodraethiant Un Llais Cymru

7.6 Fforwm cynghorau tref a chymuned - cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesaf 8.9.2025.

7.7 Bil Cynllunio (Cymru) Drafft: Trosolwg | LLYW. CYMRU

8. Adroddiad Blynyddol 2024-25.

Cytunwyd i dderbyn yr Adroddiad Blynyddol fel y'i cynhyrchwyd gan y clerch.

9 Adroddiadau Aelodau

9.1 Adroddodd y Cynghorydd William Victor Owen fod yr arwydd ffordd ar gyffordd Minffordd Road / Bryngwran wedi'i guddio, ac roedd hefyd wedi derbyn cwyn am fieri yn tyfu ar y palmant wrth y lloches fws oedd islawr i Ysgol Caergeiliog.

10. Cyfarfod Nesaf - 16 Medi 2025

: